**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Rhagfyr 2012**

**CYLLIDEB DDRAFFT 2013-14**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Rhoi i'r Aelodau y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14 i'w chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod mewn perthynas â chyllideb ddrafft 2013-14, y rhagolygon ar gyfer 2014-15 a 2015-16, ac mae'r papurau sy'n atodedig yn nodi:-

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A);
(ii) y cyfraniadau amcanol sydd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol (Atodiad B);
(iii) y rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad C).

3 Nid yw Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Ariannol wedi eu cynnwys oherwydd cânt eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, a hwnnw sydd wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar y strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau. Yn seiliedig ar ei ganfyddiadau, bydd yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub.

## Y CEFNDIR

4 Pan ddaeth y Llywodraeth bresennol i rym, un o'i hamcanion ariannol oedd lleihau gwariant yn y sector cyhoeddus flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y prif gyllid ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yw'r Grant Cynnal Refeniw (CGR) gan Lywodraeth Cymru (LlC), ac

mae'r cyllid ar gyfer awdurdodau tân ac achub wedi ei gynnwys o fewn y setliad. Mae LLC wedi rhoi arwydd i awdurdodau lleol beth fydd y newidiadau i'w setliadau CGR am y tair blynedd nesaf fel bod awdurdodau'n gallu gwneud cynlluniau tymor hir i leihau gwariant. Mae'r tabl isod yn nodi % y newidiadau yn y CGR ar gyfer yr awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, ac mae'n dangos y newid gwirioneddol ar gyfer 11/12 a 12/13, ynghyd â'r newid amcangyfrifiedig ar gyfer 13/14 (wedi ei ddarparu gan LLC fel setliad amcanol).

Tabl 1

| Awdurdod Lleol | % Gostyngiadau(-)/Cynyddiadau CGR | | |
|---|---|---|---|
| | Gwir 11/12 | Gwir 12/13 | Amcangyfrif 13/14 |
| Ynys Môn | -1.70% | -1.20% | 1.07% |
| Gwynedd | -1.70% | 0.00% | 1.14% |
| Conwy | -1.70% | -0.40% | 0.91% |
| Sir Ddinbych | -1.60% | 0.70% | 1.01% |
| Sir y Fflint | -1.70% | -0.20% | 1.13% |
| Wrecsam | -1.20% | 1.20% | 2.10% |
| Cyfartaledd ALl | -1.60% | 0.01% | 1.22% |
| Tân Gogledd Cymru | -0.50% | -0.50% | 0.00% |

5 Oherwydd y sefyllfa ariannol drwy Gymru, cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 10 Rhagfyr 2010 i benderfynu ar lefel y gostyngiad yng nghyllideb yr Awdurdod dros y tair blynedd nesaf ac i gytuno ar strategaeth ar gyfer sicrhau'r gostyngiadau hynny.

6 Yr opsiwn ddewisol oedd cyd-fynd â'r gostyngiad cyffredinol yn y setliad a thaenu'r arbedion yn gyfartal dros y tair blynedd. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 0.5% yn y gyllideb ym mlynyddoedd 1 a 2, a chyllideb ddigyfnewid ym mlwyddyn 3. Oherwydd y byddai'r ymrwymiadau hysbys yn cynyddu'r gyllideb 2% yn y ddwy flynedd gyntaf, ac yna 2.5% ym mlwyddyn 3, byddai'r arbedion cyffredinol angenrheidiol dros y tair blynedd, fel arian parod, yn £2.45m, sef gostyngiad o 7.5%.

7 Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol mai'r flwyddyn nesaf yw blwyddyn olaf y cynllun tair blynedd, ac er bod 2014/15 a 2015/16 wedi eu cynnwys, maent yn flynyddoedd newydd yn y broses

gynllunio felly ni chytunwyd eto ar strategaeth i benderfynu ai doeth fyddai cynllunio ar gyfer arbedion pellach. Ar gyfer y blynyddoedd hyn, ni chynhwyswyd ond amcangyfrif yn unig o'r cynyddiadau posibl hyd nes y cytunir ar strategaeth.

**GWIRIONEDDOL – 2011/12**

8 Mae'r gwariant gwirioneddol yn 2011/12 wedi ei gynnwys yng ngholofn gyntaf yr atodiad er mwyn cynorthwyo i gymharu â'r cyllidebau cyfredol ac arfaethedig. O dan gostau gweithwyr, mae gwahaniaeth nodedig rhwng y gwariant gwirioneddol yn 2011/12 a'r cyllidebau ar gyfer staff gwasanaethau llywodraeth leol. Mae hyn oherwydd ailstrwythuriad a arweiniodd at lenwi swyddi gwag yn hwyrach na'r disgwyl, a nifer o swyddi heb gael eu llenwi oherwydd yr angen i wneud arbedion yn y blynyddoedd i ddod. Roedd gwariant dan gostau amrywiol yn uwch o'i gymharu â chyllidebau cyfredol a rhai'r dyfodol, a hynny oherwydd costau dileu swyddi ac o ganlyniad i'r ailstrwythuriad. Roedd y gwariant ar atgyweiriadau a chynnal a chadw yn uwch yn 2011/12 oherwydd bod gofynion o ran cynnal a chadw wedi cronni o ganlyniad i gyfyngu ar wario yn y blynyddoedd a fu. Roedd costau cyfathrebu yn llai na'r cyllidebau cyfredol a rhai'r gorffennol, a hynny oherwydd newidiadau mewn contractau rhentu llinellau ac effeithiau llawn costau Firelink heb godi tan y flwyddyn ganlynol.

**ALLDRO BLWYDDYN 2 – 2012/13**

9 Pan gytunwyd ar y cynllun tair blynedd gwreiddiol, penderfynodd yr Aelodau y byddai'r arbedion o £815k, ym mlwyddyn 2 o'r cynllun, yn cael ei wneud yn y meysydd canlynol:-

| | |
|---|---|
| • Gofal tân rheng flaen (newid yn y cylchrestru) | £500,000 |
| • Llinellau dewisol yn y gyllideb (e.e. cynadleddau) | £ 60,000 |
| • Gwasanaethau anstatudol (e.e. Cymd. Diffoddwyr Tân Ifanc, *Bike Safe*) | £ 20,000 |
| • Diogelwch cymunedol | £ 50,000 |
| • Gwasanaethau cefnogol | £ 90,000 |
| • Arbedion ychwanegol (i'w canfod yn ystod y flwyddyn) | £ 95,000 |

10 Mae adroddiad ar wahân ar yr agenda, sef Alldro Amcanol 2012/13, yn nodi'r alldro amcanol o'i gymharu â'r gyllideb, a lle nad oes arbedion wedi eu sicrhau'n llwyr yn y meysydd a nodir uchod, cafwyd arbedion mewn mannau eraill i wneud iawn am y diffyg.

**CYLLIDEB 2013/14**

11 Dyma flwyddyn olaf y gyllideb ddigyfnewid tair blynedd y cytunodd yr Aelodau arni. Er mwyn cael cyllideb ddigyfnewid, mae'n rhaid gwneud arbedion er mwyn ymorol am gostau y gwyddom y byddant yn cynyddu.

12 Er mwyn gosod cyllideb gytbwys, y man cychwyn yw cynnwys ymrwymiadau hysbys megis y cyllid refeniw ar gyfer y rhaglen gyfalaf a chynyddiadau chwyddiannol nad oes modd eu hosgoi.

13 Cafodd cyflogau'r sector cyhoeddus eu rhewi am dair blynedd. Erbyn hyn mae'r cyfnod o rewi cyflogau wedi dod i ben, a chafodd y diffoddwyr tân godiad o 1% o fis Gorffennaf 2012 ymlaen. Ni ddyfarnwyd codiad ar gyfer diogelwch cymunedol, diogelwch tân cymunedol na deddfwriaethol. Er mwyn ymorol am ddyfarniadau cyflog posibl yn 2013/14, mae 2% wedi ei ffactorio i mewn i'r gyllideb ar gyfer yr holl staff a gyflogir.

14 Mae rhai llinellau yn y gyllideb wedi codi pan fo'n hysbys y bydd cynnydd chwyddiannol, e.e. costau ynni, tanwydd, ardrethi annomestig cenedlaethol a chytundebau lefel gwasanaeth. Mae llinellau eraill wedi codi pan fu newid yn y modd y darperir gwasanaeth, e.e. costau cefnogi Firelink, newid mewn contractau rhentu llinellau a defnyddio contractwyr allanol ar gyfer cynnal a chadw cerbydau. Mae llinellau eraill yn y gyllideb wedi cael eu cadw ar eu lefel bresennol (neu'n llai os ydynt yn rhan o'r cynllun arbedion), a bydd yn rhaid cwrdd ag unrhyw gynyddiadau chwyddiannol drwy wneud rhagor o arbedion. Y cynnydd cyffredinol yw £482k, ac mae £323k o hynny ar gyfer y dyfarniad cyflog a amcangyfrifir.

## CYLLIDEB 2014/15 a 2015/16

15 Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses gynllunio, mae'r rhagolygon o ran y gyllideb ar gyfer 2014/15 a 2015/16 wedi eu cynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

16 Mae ymrwymiadau hysbys wedi eu ffactorio i mewn i'r cyllidebau am y ddwy flynedd nesaf, ac maent yn cynnwys y cynnydd yng nghostau refeniw cyfalaf, yn seiliedig ar y rhaglen gyfalaf sydd yn atodiad C. Gyda diwedd y cyfnod o rewi cyflogau'r sector cyhoeddus, ystyriwyd mai doeth fyddai cynnwys dyfarniad cyflog posibl o 2% yn y gyllideb ar gyfer y ddwy flynedd hyn. Mae effaith yr ymrwymiadau hysbys wedi cynyddu'r gyllideb 2.81% yn 2014/15 a 2.42% yn 2015/16.

17 Mae 2014/15 a 2015/16 yn flynyddoedd newydd yn y broses gynllunio, felly ni chytunwyd eto ar strategaeth o ran penderfynu ai doeth fyddai cynllunio ar gyfer arbedion pellach yn y blynyddoedd hynny. Bydd trafodaethau ar gynlluniau'r dyfodol o ran y gyllideb yn cychwyn yn gynnar yn y broses o osod y gyllideb y flwyddyn nesaf.

## ARBEDION BLWYDDYN 2 a 3 – 2012/13 a 2013/14

18 Cytunodd yr Aelodau y byddai'r rhan fwyaf o'r arbedion, dros £1m, yn dod gan ostyngiad mewn gwariant ar ofal tân, a gostyngiad cyfatebol yn lefel y gefnogaeth.

19 O ran y gostyngiad yng nghost gofal tân, gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar yr opsiwn a argymhellwyd gan y Panel Gweithredol, sef gwneud newidiadau i'r system gylchrestru criwiau, a gwneud y newidiadau trwy gytundeb ar ôl trafod. Dewiswyd yr opsiwn hwn oherwydd mai hyn fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar y gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Daethpwyd i gytundebau rhwng y swyddogion a'r cyrff cynrychioliadol, a chafodd system gylchrestru newydd ei rhoi ar waith ar 1af Ebrill 2012. Y cytundeb oedd cael 22 yn llai o swyddi diffoddwyr tân, a hynny trwy ddull naturiol ymddeoliadau. Fodd bynnag, os nad yw nifer y diffoddwyr tân sy'n ymddeol yn cyd-fynd â'r arbedion arfaethedig yn y gyllideb, neilltuwyd cronfa wrth gefn i ymorol am gostau ychwanegol hyd nes y bydd y niferoedd sy'n ymadael â'r Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y cynnig gwreiddiol.

20 Mae nifer y staff cefnogol wedi gostwng yn dilyn ailstrwythuriad, ac mae gostyngiadau pellach i gael eu gwneud yn 2013/14 yn dilyn adolygiad pellach o wasanaethau.

**CYFRANIADAU**

21 Mae Atodiad B yn nodi'r cyfraniadau am y tro ar gyfer 2013-14 gan yr awdurdodau cyfansoddol.

22 Oherwydd bod amcangyfrifon poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael eu defnyddio i ddyrannu cyfraniad a CGR, bydd yr Aelodau'n dymuno nodi bod yr awdurdodau sydd ag amcangyfrifon poblogaeth mwy nag o'r blaen yn gweld cynnydd yn eu cyfraniad, ond byddant hefyd wedi elwa ar gynnydd yn y CGR i ymorol am hyn (gweler Tabl 1).

**RHAGLEN GYFALAF**

23 Nodir y gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2013-14 yn Atodiad C, ac mae'n £7.616m. O'r ffigwr hwn, mae £3.716m ar gyfer cynlluniau newydd a £3.9m ar gyfer cynllun Wrecsam, a gymeradwywyd yn 2009/10 ond sydd wedi ei ohirio. Cafodd y cynlluniau adeiladu mawr a nodir yn yr atodlen eu hadrodd i Aelodau'r Panel Gweithredol ar 17 Medi 2012. Prynir peiriannau a cherbydau ategol newydd, a hynny yn unol â'r rhaglen cerbydau newydd. Yn 2012-13, yr alldro amcangyfrifiedig am wariant cyfalaf yw £4.365m, a chynigir ariannu hyn trwy fenthyca.

**ARGYMHELLION**

24 Argymhellir bod:

(i) Yr Aelodau'n cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2013/14;
(ii) Yr Aelodau'n cadarnhau'r strategaeth i'w dilyn er mwyn sicrhau'r arbedion yn 2013/14;
(iii) Yr Aelodau'n nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2014/15 a 2015/16;
(iv) Yr awdurdodau cyfansoddol yn cael gwybod beth yw'r cyfraniadau amcanol angenrheidiol ar gyfer 2013/14;
(v) Y rhaglen gyfalaf ddrafft a'r dulliau cysylltiedig o ariannu ar gyfer 2013/14 yn cael eu cymeradwyo.